# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 12 Tachwedd 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(229)v3

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Burfa Murco, Aberdaugleddau (30 munud)**

**4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5614 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu swydd Comisiynydd y Lluoedd Arfog.

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5616 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod gan Gymru gyfoeth o adnoddau naturiol.

2. Yn nodi'r rôl bwysig y mae dŵr yn ei chwarae o ran cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru ar hyn o bryd ac at y dyfodol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried ffyrdd o fanteisio ar botensial dŵr i economi Cymru.

4. Yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i ymgysylltu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol i sicrhau bod pwysigrwydd adnoddau dŵr i gymunedau yn cael ei nodi a gweithio tuag at gynnwys gwybodaeth ar labeli ynghylch ôl troed dŵr cynhyrchion a gwasanaethau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi'r manteision posibl y mae ynni dŵr a storfa bwmp yn eu cynnig i gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddatganoli dŵr a charffosiaeth yn llawn, gan sicrhau bod y cymhwysedd deddfwriaethol yn gyson â'r ffin cenedlaethol yn unol â'r argymhelliad yr adroddiad Silk Rhan 2.

Gellir gweld adroddiad Silk Rhan 2 yn:
http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2014/03/Grymuso-a-Chyfrifoldeb-Pwerau-Deddfwriaethol-i-Gryfhau-Cymru.pdf

**6 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**
**NDM5615 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r rhagolygon presennol y bydd y cytundeb consesiwn ar gyfer pontydd Hafren yn dod i ben yn 2018 a bod angen cynnal trafodaethau cynnar ynghylch system codi tollau, gwaith cynnal a chadw a pherchnogaeth y pontydd at y dyfodol.

2. Yn credu bod y system codi tollau bresennol yn faich annheg ar fusnesau, teithwyr a'r cyhoedd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar gynllunio ar gyfer dyfodol y pontydd.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddiddymu'r tollau ar bontydd Hafren unwaith y bydd y costau adeiladu ac atgyweirio presennol yn cael eu talu.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

4. Yn galw am drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros bennu'r tollau ar bontydd Hafren, yn dilyn y consesiwn, i Lywodraeth Cymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i leihau'r tollau ar bontydd Hafren i adlewyrchu costau cynnal a chadw yn unig, ac i barhau i roi ystyriaeth i'r opsiwn tymor hir o ddileu'r tollau.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ynghylch dileu'r tollau

ar bontydd Hafren.

*[Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 4 ac yn ei le rhoi:

Yn cydnabod, fel a amlinellir yn y gwaith ymchwil economaidd "Effaith Tollau'r Hafren ar Economi Cymru", bod tollau'r Hafren yn golygu cost o tua £80 miliwn i economi Cymru, ac, felly, credir y dylai Llywodraeth Cymru fod â chyfrifoldeb dros benderfyniadau am dollau yn y dyfodol.

Mae'n bosib gweld "Effaith Tollau'r Hafren ar Economi Cymru" ar y linc canlynol:

[http://wales.gov.uk/statistics-and-research/impact-severn-bridge-tolls-welsh-economy/?skip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/statistics-and-research/impact-severn-bridge-tolls-welsh-economy/?skip=1&lang=cy)

**7 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 18 Tachwedd 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Tachwedd 2014 i'w hateb ar 12 Tachwedd 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Gwyn Price (Islwyn)**: Pa gynnydd y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ran sicrhau cyllid teg i Gymru? OAQ(4)0474(FIN)

2. **David Rees (Aberafan)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gymeradwyo Cytundeb Partneriaeth y DU yn ddiweddar? OAQ(4)0480(FIN)

3. **Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y dyraniad cyllidebol i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? OAQ(4)0473(FIN)

4. **Gwyn Price (Islwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd cronfeydd strwythurol yr UE i gymoedd de Cymru? OAQ(4)0476(FIN)

5. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: Pa flaenoriaethau a gafodd eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio Cyfoeth Naturiol? OAQ(4)0483(FIN)

6. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: Pam y penderfynwyd y gallai'r rhai sy'n cael cyllid buddsoddi i arbed ohirio gwneud unrhyw ad-daliad yn ystod y flwyddyn ar ôl y benthyciad? OAQ(4)0469(FIN)

7. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y buddion y mae cymunedau gwledig Cymru yn eu cael o gronfeydd strwythurol yr UE? OAQ(4)0482(FIN)

8. **Sandy Mewies (Delyn)**: Pa egwyddorion y bydd y Gweinidog yn eu mabwysiadu wrth ddatblygu polisi treth Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0478(FIN)

**9. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyhoeddiad diweddar o £2 biliwn o gyllid yr UE ar gyfer Cymru? OAQ(4)0479(FIN)

**10. Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch rôl Cymru yn y gwaith o ddatblygu trefniadau ariannu yn y DU? OAQ(4)0477(FIN)

**11. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i baratoi ar gyfer datganoli treth stamp a threth tirlenwi i Gymru? OAQ(4)0470(FIN)

**12. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y dyraniad cyllidebol cyffredinol i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? OAQ(4)0468(FIN)

**13. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa gynnydd y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ran sicrhau cyllid teg i Gymru? OAQ(4)0475(FIN)

**14. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa flaenoriaethau a gafodd eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio Addysg a Sgiliau? OAQ(4)0467(FIN)

**15. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chydweithwyr cabinet ynglŷn â goblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio i gyllideb Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0481(FIN)

## Gofyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Elin Jones (Ceredigion):** A yw'r Gweinidog wedi gwneud asesiad o effaith y twf yn nifer staff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar gyllid sydd heb ei neilltuo ar gyfer awdurdodau'r heddlu? OAQ(4)0482(PS)**W**

**2. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith y gyllideb ddrafft ar lywodraeth leol? OAQ(4)0484(PS)**W**

**3. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfiawnder ieuenctid? OAQ(4)0488(PS)

**4. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiswyddiadau o fewn llywodraeth leol? OAQ(4)0489(PS)

**5. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** Pa waith cynllunio wrth gefn y mae'r Gweinidog wedi'i wneud i helpu cynghorau i baratoi ar gyfer unrhyw bwysau annisgwyl o ran cost ar gyllidebau awdurdodau lleol? OAQ(4)0491(PS)

**6. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu bygwth gan doriadau i gyllidebau awdurdodau lleol? OAQ(4)0483(PS)

**7. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gefnogaeth i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog yng Nghymru? OAQ(4)0487(PS)

**8. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â chontractau ar gyfer gwasanaethau crwner? OAQ(4)0481(PS)**W**

**9. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0480(PS)

**10. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynigion Llywodraeth Cymru i ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0495(PS)

**11. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddileu anffurfio organau cenhedlu benywod yng Nghymru? OAQ(4)0490(PS)

**13. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaeth tân yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0494(PS)

**13. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfrifoldebau gorfodi llywodraeth leol yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0486(PS)

**14. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal ynghylch colegau diogel yng Nghymru? OAQ(4)0493(PS)**W**

**15. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol yng ngorllewin Cymru dros y 12 mis nesaf? OAQ(4)0479(PS)